**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

23 Ebrill 2018

Annwyl Elin

**Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mawrth ynghylch y baich gwaith tebygol ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n deillio o Brexit. Ystyriodd y Pwyllgor hyn yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal ymchwiliad cychwynnol ar Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach, a gaiff ei gynnal yn ystod haf 2018. Bydd yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnwys o fewn rhaglen ac adnoddau staffio presennol y Pwyllgor.

Ochr yn ochr â hyn, bydd y Pwyllgor yn parhau i brif-ffrydio materion sy'n ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeaidd i'w waith craffu cyffredinol, craffu ar bolisi a chraffu deddfwriaethol, gan ddilyn meysydd perthnasol pan fyddant yn codi. Ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn disodli gweithgarwch allweddol arall nac yn achosi diffyg gallu edd ar gyfer y Pwyllgor na'r Aelodau.

Gallai unrhyw waith penodol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n gysylltiedig â Brexit ddisodli meysydd gwaith eraill a'i gwneud yn ofynnol i geisio gallu edd ychwanegol o ran Aelodau a staff. Gallai meysydd o'r fath gynnwys is-ddeddfwriaeth, cynigion cydsynio deddfwriaethol, Fframweithiau'r DU, a Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, neu effaith ar feysydd datganoledig o ran perthnasoedd masnach neu berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol mewn cysylltiad â meysydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor. O ystyried yr ansicrwydd sy'n ymwneud â'r meysydd hyn, ni all y Pwyllgor ddweud yn iawn ar hyn o bryd, ond yn y cyfamser ni fyddem am weld lleihad o ran amser cyfarfod y Pwyllgor a / na'i adnoddau ategol.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC / AM**
**Cadeirydd / Chair**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565